*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **04/06/18** |
| Swyddog Arweiniol | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael** |
| Swyddog Cyswllt | **Keith Williams (Rheolwr Archwilio) 01492 576217** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Dan delerau'r rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, rhaid i'r Awdurdod gynnal adolygiad bob blwyddyn o ba mor effeithiol yw ei system Rheolaeth Fewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n cyfrannu'n fawr at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Blynyddol o Gyfrifon.

2 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y DU 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch yr holl system rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol.

3 Mae'r adroddiad yn cynnwys y datganiad sicrwydd ar sail gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2018.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

4 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, ar sail y gwaith archwilio mewnol a gafodd ei gynnal, ynghyd â'r wybodaeth rydyn ni'n ei chadw am y sefydliad a'i weithdrefnau, fod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

5 Mae'r adroddiad yn nodi bod 50 o ddiwrnodau o waith Archwilio Mewnol wedi cael eu cynnal yn ystod 2017/18 o'i gymharu â'r dyraniad a gynlluniwyd, sef 55 diwrnod; felly bydd 5 diwrnod o waith archwilio yn cael ei gario drosodd i 2018/19.

6 Mae'r adolygiadau archwilio yn darparu lefel o sicrwydd ynghylch pa mor ddigonol yw'r systemau rheolaeth fewnol sy'n bodoli, er bod 39 o argymhellion wedi cael eu gwneud yn y flwyddyn i fynd i'r afael â rhai gwendidau. Mae proses ddilynol ar gael i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn amserlenni y cytunir arnynt.

7 Nid yw gwaith Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau a fyddai'n amodi'r farn hon, ac nid oes unrhyw faterion pwysig sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

8 Mae'r adroddiad hefyd yn darparu sicrwydd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y DU er mwyn galluogi'r Awdurdod i gael sicrwydd o'r farn hon.

**ARGYMHELLION**

9 Argymhellir gofyn i'r Aelodau ystyried a darparu sylw i'r Pwyllgor Archwilio ar y sicrwydd fod gan yr Awdurdod, am y 12 mis hyd at 31ain Mawrth 2018, broses rheolaeth fewnol, rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol i reoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion.

**CEFNDIR**

**Rôl Archwilio Mewnol**

10 Dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Tân i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol".

11 Rôl y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu asesiad gwrthrychol i'r rheolwyr ynghylch a yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn. Mae'n rhan allweddol o system rheolaeth fewnol y sefydliad oherwydd mae'n mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw rheolaethau eraill er mwyn fel:

- bod y Pwyllgor Archwilio a'r uwch reolwyr yn ymwybodol i ba raddau y gallan nhw ddibynnu ar yr holl system; a
- bod rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maen nhw'n gyfrifol amdanyn nhw.

12 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod, er mwyn sicrhau bod ei amcanion yn cael eu cyflawni. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn sicrhau gwerth am arian o'i weithgareddau.

13 Mae Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn datgan bod rhaid cyflwyno adroddiad dan nawdd ATAGC am y perfformiad mewn perthynas â'r cynllun gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

## GWYBODAETH

### Adolygu Gweithgaredd a Pherfformiad 2017/18

14 Yn **Atodiad A**, mae rhestr yn rhoi barn archwilio am ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheolaeth fewnol a chrynodeb o'r negeseuon allweddol ar gyfer pob un o'r aseiniadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod 2017/18.

15 Cafodd pedwar adroddiad archwilio eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, yn ymdrin â'r canlynol:

- **Diogelwch Seiber (Rhan 1)** – Amcan yr adolygiad oedd darparu asesiad annibynnol I'r rheolwyr o effeithiolrwydd polisïau, gweithdrefnau a gweithgareddau llywodraethu ar gyfer atal, canfod a rheoli digwyddiadau seiber-droseddau. Mae dwy ran i'r adolygiad, ac mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â Llywodraethu, Rhestrau Asedau a Ffurfweddiadau Diogelwch Safonol. Roedd canfyddiadau'r archwiliad yn dangos bod rheolaethau allweddol yn bodoli ond bod bylchau, sy'n gadael GTAGC yn agored i'r hyn a allai fod yn risgiau sylweddol, gan arwain at sgôr sicrwydd **Cyfyngedig**.

- **Gorsafoedd y System RDS (Conwy a Sir Ddinbych)** – Cafodd adolygiad ei gynnal i sicrhau bod diffoddwyr tân RDS yn cael eu talu'n gywir ac effeithiol, bod gorsafoedd yn diogelu eu hasedau'n effeithiol, bod y defnydd o gerbydau'n cael ei reoli'n gywir a bod cronfeydd lles ar orsafoedd yn gweithredu yn unol â'r SAPPO. Roedd yr archwiliad yn gwneud 9 o argymhellion ac yn darparu lefel Foddhaol o sicrwydd.
- **Polisi a Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban –** Cafodd adolygiad o bolisi a gweithdrefnau chwythu'r chwiban yr Awdurdod ei gynnal i ddarparu lefel o sicrwydd i'r rheolwyr fod rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol, bod risgiau posibl yn cael eu rheoli'n dda a bod amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni. Roedd yr archwiliad yn gwneud 12 o argymhellion ac yn darparu lefel Foddhaol o sicrwydd.
- **Y Fenter Dwyll Genedlaethol (NFI)** – Mae'r Fenter Dwyll Genedlaethol yn ymarferiad cynhwysfawr a thrylwyr i 'baru data'. Mae hi'n cael ei threfnu gan Swyddfa'r Cabinet mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r ymchwiliadau, sy'n darparu lefel Uchel o sicrwydd fod y systemau rheolaeth fewnol yn gweithio'n dda a bod cyn lleied â phosibl o dwyll ac anghysonderau. Mae'r ymarferiad yn cynorthwyo hefyd i gryfhau'r trefniadau gwrth-dwyll a llygredd, ac i sefydlu diwylliant gwrth-dwyll.

16 Hefyd, cafodd rhywfaint o waith ei wneud gan Archwilio Mewnol i gefnogi Uwch Reolwr Gwasanaethau Proffesiynol y Gwasanaeth mewn ymchwiliad mewnol. Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud â gwybodaeth a ddaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru am y defnydd posibl o gerbydau'r Gwasanaeth gan swyddogion a gyflogir gan GTAGC, sef mater y gallai Cyllid a Thollau EM ei gategoreiddio fel 'budd mewn nwyddau'. Cwblhawyd adroddiad gan y Gwasanaeth, ac roedd oedd yn cynnwys 4 argymhelliad i gryfhau rhagor ar y rheolaethau a oedd eisoes yn bodoli; cafodd rhagor o waith ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru yn Ionawr 2018.

17 Mae canlyniad pob archwiliad, a gwerthusiad o ba mor ddigonol yw'r amgylchedd rheolaeth fewnol, yn seiliedig ar nifer yr argymhellion a'u graddiad risg. Cafodd pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn eu hasesu fel rhai sy'n darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd, ac eithrio'r archwiliad o Ddiogelwch Seiber, a oedd yn gwneud 18 o argymhellion ac yn darparu lefel Gyfyngedig o sicrwydd. Mae'r archwiliad dilynol wedi'i drefnu yn gynnar yn 2018/19.

18 Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd yn ystod yr adolygiadau archwilio, gwnaethpwyd 39 o argymhellion. Cafodd cynlluniau gweithredu, yn nodi'r ymateb y cytunwyd arno, eu cyhoeddi gydag adroddiadau'r archwiliadau, a daeth y rhain yn ôl gan reolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â'r camau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Mae'r rheolwyr wedi cytuno i roi holl argymhellion yr archwiliadau ar waith.

19 Er mwyn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol CIPFA ar gyfer y Sector Cyhoeddus 2013, gweithredir proses ddilynol ffurfiol o fewn yr Adran i gadarnhau bod yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau Archwilio Mewnol wedi cael eu gweithredu gan y Rheolwyr o fewn yr amser a gytunwyd. Fel arfer, cynhelir adolygiad mewnol chwe mis wedi cyhoeddi'r adroddiad terfynol. Yn **Atodiad B**, ceir amserlen o'r archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2018. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac a weithredwyd, o ganlyniad, gan y rheolwyr ymhob maes ac mae hefyd yn datgelu'r newidiadau sydd wedi effeithio ar farn wreiddiol yr archwiliad. Gwneir gwaith dilynol pellach yn y meysydd lle mae nifer sylweddol o argymhellion heb gael eu gweithredu.

20 Yn ystod 2017/18, darparwyd 50 o ddiwrnodau archwilio, o gymharu â dyraniad a gynlluniwyd o 55 diwrnod fel y nodwyd yn y cynllun archwilio blynyddol. Mae crynodeb o'r gweithgareddau archwilio ar gael yn **Atodiad C**, ac mae'n dangos y dyraniad a gynlluniwyd o adnoddau archwilio o ran y diwrnodau pobl mewn adrannau a gwasanaethau, ac mae'n cymharu'r gwaith a wnaed mewn gwirionedd yn 2017/18 gyda'r cynllun.

21 Ni chafodd yr archwiliad o Ddiogelwch Seiber (Rhan 1) ei gwblhau tan fis Rhagfyr 2017 oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld; dyrannwyd 7 diwrnod yn y flwyddyn i gwblhau'r archwiliad a pharatoi'r rhaglen archwilio ar gyfer Rhan 2 o'r archwiliad, sydd wedi'i chario drosodd i 2018/19. Fe wnaeth hyn, ynghyd â'r gwaith ychwanegol ar bolisïau a gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban yn yr Awdurdod, arwain at gario'r archwiliad a gynlluniwyd o Gredydwyr (System P2P) ymlaen i 2018/19.

**Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19**

22 Mae'r Cynllun Archwilio Drafft ar gyfer 2018/19 ar gael yn **Atodiad D**; mae'r adnoddau archwilio sydd ar gael wedi'i cynyddu i 55 diwrnod gan fod 5 diwrnod wedi cael eu cario drosodd o 2017/18. Pwrpas yr cynllun archwilio blynyddol yw:-

- pennu blaenoriaethau archwilio ar y cyd â Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub ar sail dull sy'n seiliedig ar risg i benderfynu ar ddechrau pob blwyddyn beth yw anghenion yr Awdurdod o ran archwilio
- penderfynu pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dyletswyddau archwilio angenrheidiol
- adolygu a dilyn y gwaith archwilio a wnaed yn y flwyddyn flaenorol.

23 Darparu arweiniad yn unig yw nod yw cynllun archwilio. Gallai newid yn yr amgylchiadau, neu ddigwyddiadau eraill na ragwelwyd, olygu gwyro oddi wrth y cynllun. Mae cynllun 2018/19 wedi cael ei baratoi yn dilyn ymgynghoriad â Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys amser i ddilyn yr argymhellion a wnaed mewn archwiliadau blaenorol.

**DATGANIAD SICRWYDD**

**Rhaglith**

24 Rhaid i Bennaeth Archwilio Mewnol ddarparu sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch yr holl system rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol. Dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y peth mwyaf y gall Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr yn yr holl system rheolaeth fewnol.

25 Y materion sy'n cael eu codi yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau a allai fod yn angenrheidiol.

**Sicrwydd Cyffredinol**

26 Mae gwaith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi cael ei gynnal yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y DU 2013.

**Barn Archwilio**

27 Rwyf wedi fy modloni fod y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd, ynghyd â'r wybodaeth sydd gennym am y sefydliad a'i weithdrefnau, yn caniatáu i mi ddod i gasgliad rhesymol am ba mor ddigonol ac effeithiol yw prosesau rheoli risgiau, rheolaeth a llywodraethu ATAGC. Yn fy marn i, mae gan ATAGC, am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, brosesau boddhaol ar gyfer rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

**Sicrwydd**

28 Yn fy marn i, mae gan ATAGC brosesau rheoli digonol ac effeithiol i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod yn y cyfnod o 12 mis hyd at 31ain Mawrth 2018. Wrth ddod i'r farn hon, cafodd y ffactorau canlynol eu hystyried:

- Mae Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad dilynol cyn pen chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol ar gyfer aseiniadau archwilio. Pwrpas yr adolygiad dilynol yw pennu pa mor amserol ac effeithiol yw'r gwaith o weithredu'r argymhellion a roddwyd i'r rheolwyr. Mae'r broses adolygu yn dangos bod y rheolwyr wedi gweithredu neu wrthi'n gweithredu pob un o'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiadau archwilio ar gyfer 2016/17.

- Yn Atodiad A, mae rhestr yn nodi barn archwilio am ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheoli ar gyfer yr aseiniadau archwilio a gafodd eu cynnal yn ystod y flwyddyn. Cafodd pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn eu hasesu, ac roeddent yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd, ac eithrio'r archwiliad o Ddiogelwch Seiber, sy'n darparu lefel Gyfyngedig o Sicrwydd. Mae archwiliad dilynol wedi ei drefnu ar gyfer dechrau 2018/19.

29 Gellid defnyddio barn gyffredinol yr archwiliadau wrth baratoi'r Datganiad Blynyddol o Lywodraethu.

## DADANSODDIAD O'R GWAITH A WNAED, A DIFFINIAD O ARGYMHELLION A BARN ARCHWILIO

30 Mae'r rhestr yn Atodiad A yn nodi canlyniadau a phrif negeseuon yr aseiniadau y mae Archwilio Mewnol wedi adrodd yn eu cylch yn ystod y flwyddyn. Mae categoreiddio'r argymhellion yn sail i farn archwilio ar gyfer pob archwiliad. Yna, mae crynodeb o farn pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn sail i'r broses pryd mae'n rhaid i Bennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael gynnwys barn, yn ei adroddiad blynyddol ffurfiol i'r Pwyllgor Archwilio, ynglŷn â pha mor ddigonol ac effeithiol yw amgylchedd rheolaeth fewnol yr Awdurdod.

### Categorïau Sgorio Risgiau

31 Mae argymhellion archwiliadau'n cael eu categoreiddio i adlewyrchu'r ffordd y mae'r Awdurdod yn asesu ac mesur risg. Dyma'r meini prawf safonol ar gyfer asesu risg:

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | Digwyddiad bron yn sicr o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau | >70% | Bron yn sicr | A | | | | | |
| | Digwyddiad yn debygol o ddigwydd yn y mwyafrif o amgylchiadau | 30-70% | Tebygol | B | | | | | |
| | Mae'n bosib i'r digwyddiad ddigwydd rhywbryd | 10-30% | Yn bosib | C | | | | | |
| | Digwyddiad yn annhebygol ac efallai y digwyddith rhywdro | 1-10% | Annhebygol | D | | | | | |
| | Digwyddiad prin ac efallai dim ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol | <1% | Prin | E | | | | | |
| | | | | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | | Isel iawn | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn |
| | | | Perfformiad y Gwasanaeth | | Mân gamgymeriadau neu darfiadau | Rhywfaint o darfu ar weithgareddau/ cwsmeriaid | Tarfu ar weithgareddau/ cwsmeriaid craidd | Tarfu'n fawr ar weith-gareddau craidd. Wedi methu targedau allweddol | Methu cyflawni gweith-gareddau craidd. Peryglu nodau strategol |
| | | | Enw da | | Modd adennill hyder heb fawr o ymdrech na chost | Modd adennill hyder am gost fechan gyda'r dyraniad adnoddau o fewn y gyllideb | I adennill hyder, rhaid awdurdodi costau y tu hwnt i'r cyllidebau presennol | Modd adennill hyder gyda chost fawr a sylw rheolwyr | Drwg mawr i hyder ac adferiad yn amheus a chostus |
| | | | Cost Ariannol | (£) | <£50k | £50k - £350k | £350k - £1 m | £1 m - £5 m | >£5m |
| | | | EFFAITH | | | | | | |

| Difrifoldeb | Ymyrraeth gan y Rheolwyr |
|---|---|
| Mân | Canfyddiadau y mae'n hawdd i reolwyr llinell fynd i'r afael â nhw. |
| Canolig | Canfyddiadau sy'n nodi Anghydffurfiaeth â gweithdrefnau a sefydlwyd ond nad ydynt yn golygu unrhyw risg mawr i'r Awdurdod, ac mae modd eu cadw ar lefel y gwasanaeth. |
| Pwysig | Canfyddiadau pwysig y mae'n rhaid i'r Prif Swyddogion eu datrys ac mae'n bosibl bod angen rhoi gwybod i'r Panel Gweithredol. |
| Critigol | Canfyddiadau sy'n sylfaenol i'r gwaith o reoli risg yn y maes busnes, ac sy'n golygu gwendidau yn y rheolaeth ac angen i'r Panel Gweithredol roi sylw iddynt ar unwaith. |

**Barn Archwilio**

32 Mae canlyniad pob archwiliad, a'r gwerthusiad o ba mor ddigonol yw'r amgylchedd rheoli mewnol, yn seiliedig ar nifer yr argymhellion a wnaed a beth oedd eu sgôr risg. Mae'r broses hon yn cyfrannu at Farn Archwilio, a chrëwyd y diffiniadau canlynol i alluogi archwilwyr i wneud asesiadau priodol am y Farn Archwilio sydd ar ddiwedd pob adroddiad archwilio.

**DIFFINIADAU O SGORIAU SICRWYDD**

| LEFELAU SICRWYDD | RHEOLAETHAU | RISGIAU |
|---|---|---|
| **SICRWYDD UCHEL** | Mae rheolaethau allweddol yn bodoli i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i amddiffyn yr Awdurdod rhag risgiau sylweddol y gellir eu rhagweld, a bod y rheolaethau'n cael eu defnyddio yn gyson ac yn effeithiol. Ni chanfuwyd unrhyw wallau sylweddol neu bwysig. | Camau blaenoriaeth isel yn ofynnol, ac mae'n hawdd rheoli'r rheini. |
| **SICRWYDD BODDHAOL** | Mae rheolaethau allweddol yn bodoli er mwyn gallu cyflawni amcanion y gwasanaeth ac er mwyn lliniaru yn erbyn risgiau sylweddol y mae modd eu rhagweld. Ond roedd rhywfaint o anghysondeb wrth eu dilyn, ac mae cyfleoedd o hyd i liniaru rhag rhagor o risgiau posibl. | Rhai cyfleoedd o hyd i liniaru rhag rhagor o risgiau posibl.<br><br>Rhywfaint o risg o golled, twyll ariannol, amhriodoldeb neu niwed i enw da. |
| **SICRWYDD CYFYNGEDIG** | Mae rheolaethau allweddol yn bodoli, a chydymffurfir â nhw i raddau amrywiol ond mae bylchau yn y broses, gan adael y gwasanaeth yn agored i risgiau. Nid yw amcanion yn cael eu cyflawni neu maent yn cael ei cyflawni heb sicrhau gwerth am arian. | Mae angen cyflwyno rheolaethau ychwanegol a/neu wella cydymffurfiaeth â'r rhai sy'n bodoli eisoes, er mwyn lleihau risg bod yr Awdurdod yn agored iddynt.<br>Risg uchel o golled, twyll ariannol, amhriodoldeb neu niwed i enw da. |
| **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod rheolaethau allweddol yn annigonol gan fod diffyg un mecanwaith rheoli critigol. Hefyd, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau sy'n bodoli eisoes a chanfuwyd gwallau a hepgoriadau. | Nid oes rheolaethau allweddol ac nid yw amcanion yn cael eu cyflawni neu maent yn cael eu cyflawni heb sicrhau gwerth am arian.<br>Mae'r Awdurdod yn agored i risg sylweddol iawn, a gallai hynny arwain at golled ariannol fawr, niwed i enw da oherwydd annifyrrwch neu fethu â chyflawni amcanion allweddol y gwasanaeth. |

### Gwendidau Cyffredin

33 Nid oes ffactor cyffredin yn cysylltu'r gwendidau a ganfuwyd fel rhan o'n gwaith mewnol yn 2017/18. Gellid ystyried bod yr archwiliad o Ddiogelwch Seiber a'r lefel Gyfyngedig o sicrwydd yn berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

### MATERION ERAILL

### Amodau ar y Farn Archwilio

34 Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y peth mwyaf y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr heblaw am y rhai a nodir.

35 Mae amodau ar y Farn Archwilio wedi'u nodi ym mharagraffau 13 ac 14. Hefyd, wrth gael y farn honno, rydyn ni wedi ystyried y canlynol:

- canlyniadau pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018;
- canlyniadau'r camau gweithredu dilynol a gymeradwywyd mewn perthynas ag archwiliadau o'r blynyddoedd blaenorol;
- a yw'r rheolwyr wedi derbyn unrhyw argymhellion categori Uchel neu Ganolig ai peidio, a beth yw'r risgiau o'r herwydd;
- effeithiau unrhyw newidiadau arwyddocaol yn amcanion neu weithgareddau'r Awdurdod;
- materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Panel Gweithredol neu'r Pwyllgor Archwilio;
- a osodwyd unrhyw gyfyngiadau ar hyd a lled archwilio mewnol;
- y cyfyngiadau o ran adnoddau ar Archwilio Mewnol sydd wedi amharu ar allu'r Gwasanaeth i ddiwallu holl anghenion archwilio mewnol yr Awdurdod;
- pa gyfran o anghenion archwilio mewnol yr Awdurdod sydd wedi cael eu trin hyd yma.

### Derbyn Argymhellion

36 Mae'r rheolwyr wedi derbyn 100% o'r argymhellion a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn. Nid oes unrhyw argymhellion yn y categori Critigol neu Bwysig yr ydym yn credu nad ydynt yn cael digon o sylw gan y rheolwyr. Mae 8 o argymhellion Pwysig yn yr archwiliad o Ddiogelwch Seiber; mae archwiliad dilynol wedi'i drefnu ar gyfer dechrau 2018/19 a bydd yr Aelodau'n cael gwybod beth fydd y canlyniad.

**Dibynnu ar Waith Cyrff Sicrwydd Eraill**

37 Mae Archwilio Mewnol yn dibynnu rhywfaint ar waith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef archwilwyr allanol yr Awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â datganiadau ariannol, rheoli risgiau a threfniadau llywodraethu corfforaethol wrth lunio'r adroddiadau blynyddol a ffurfio ein barn flynyddol ynghylch y cyfnod.

**Materion y Tybir eu bod yn Berthnasol i'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol**

38 Ar sail gwaith yr Adran Archwilio Mewnol yn ystod 2017/18, ystyrir y gallai canlyniadau'r archwiliad o Ddiogelwch Seiber a'r lefel Gyfyngedig o sicrwydd fod yn berthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol**

39 Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risgiau i benderfynu ynghylch, a defnyddio, methodoleg sy'n seiliedig ar risgiau wrth gynllunio a chynnal ein haseiniadau archwilio. Mae gwaith Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi cael ei wneud yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y DU 2013.

40 Mae Archwilio Mewnol yn agored i adolygiad blynyddol gan Archwilio Allanol er mwyn penderfynu a yw'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y DU 2013.

41 Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) i rym ar 1af Ebrill 2013 ac roeddent yn cyflwyno gofyniad i gynnal asesiad allanol o'r holl wasanaethau archwilio mewnol o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan adolygydd annibynnol cymwys o'r tu allan i'r sefydliad. Rheolwr Gwasanaeth – Archwilio a Thechnegol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wnaeth yr asesiad ym mis Tachwedd 2016. Mae Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol yn awgrymu tri sgôr, sef 'Yn Cydymffurfio'n Gyffredinol', 'Yn Cydymffurfio'n Rhannol', ac 'Nid yw'n Cydymffurfio'. Barn gyffredinol yr aseswyr allanol yw bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n gyffredinol â PSIAS a'r Cod Moeseg ymhob maes o bwys a'i fod yn gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol.

42 Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiadau ansawdd mewnol gan aelodau profiadol o'r swyddogaeth archwilio mewnol er mwyn arfarnu:

- cydymffurfiaeth â safonau trefniadaethol a phroffesiynol,
- ansawdd y gwaith archwilio a goruchwyliaeth,
- cydymffurfiaeth â'r llawlyfr archwilio lleol,
- cyflawni'r dangosyddion perfformiad.

43 Mae'r adolygiad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r gwaith a wnaed yn ystod 2017/18 wedi dangos cydymffurfiaeth â safonau mewnol ac allanol.

**Rhaglenni Sicrwydd Ansawdd Mewnol**

44 Er mwyn sicrhau ansawdd y gwaith a wnaed gan Archwilio Mewnol, mae amrywiaeth o fesurau ansawdd ar gael, sy'n cynnwys:

- goruchwylio staff sy'n gwneud gwaith archwilio;
- adolygiad dogfennol o holl ffeiliau papurau gwaith ac adroddiadau gan reolwyr;
- arfarniad blynyddol o'r staff archwilio, gan arwain at gynlluniau datblygiad personol a chamau hyfforddi;
- cynnal a chadw Llawlyfr Archwilio Mewnol yr Adain.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag amcan llesiant tymor hir ATAGC, sef "Hwyluso gwasanaethau tân ac achub o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac yn fwy integredig fel bod modd i weithgareddau ataliol ac ymateb brys barhau i fod ar gael lle a phryd mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Mae Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael eu darparu fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth ac o fewn cyfyngiadau cyllidebol. |
| Cyfreithiol | Amherthnasol |
| Staffio | Amherthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amherthnasol |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan Bennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol, ni fyddai'r Aelodau'n gwybod pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau arwyddocaol a ganfyddir gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** **ATODIAD A**

## Adain Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barn Archwiliad

| | Maes Archwilio | Canfyddiadau a Negeseuon Allweddol yr Archwiliad | Crit-igol | Pwy sig | Cymed rol | Mân | Cyfan -swm | Cytun-wyd gan y Rheolwyr | Barn Arch-wilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Diogelwch Seiber (Rhan 1)** | Mae diogelwch seiber yn cynnwys cymysgedd o dechnolegau, prosesau a mesurau sydd wedi'u dylunio i ddiogelu systemau, rhwydweithiau a data rhag seiber-droseddau, gan leihau'r risg o ymosodiad seiber ac i amddiffyn y sefydliad ac unigolion. Daw diogelwch drwy wneud pethau'n iawn yn gyffredinol a gwneud yn siŵr fod pobl, ar bob lefel, yn deall y bygythiadau i'r sefydliad cyfan. Fel arfer, bwriad ymosodiad seiber yw niweidio neu gael gwybodaeth gan unigolyn, sefydliad neu endid cyhoeddus er mwyn lladrata, cael mynediad heb ganiatâd at rwydweithiau, peryglu cofnodion swyddogol neu ariannol a/neu wneud niwed i enw da.<br><br>Mae'r risg o ymosodiad seiber wedi'i gynnwys ar gofrestr risgiau GTAGC, ac mae staff ar bob lefel o'r sefydliad a'r rheolwyr gweithredol yn cael gwybod yn rheolaidd am y sefyllfa bresennol o ran Diogelwch Seiber a bygythiadau ac ati. Mae Gorchmynion Polisïau a Gweithdrefnau Gweinyddol y Gwasanaeth (SAPPOs) yn bodoli, ond mae angen adolygu'r rhain yn amserol a'u cyflwyno i'r gweithlu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu maes sy'n esblygu'n gyson. Hefyd, er bod peth hyfforddiant diogelu data ar gael a bod cyflwyniad wedi cael ei sefydlu, mae angen eu rhoi ar waith ac annog y gweithlu i fynychu neu gwblhau'r hyfforddiant ar lein, sy'n cynnwys rhai canllawiau ac arferion da ar gyfer diogelu data. Gellid gweld hysbysiadau a hyfforddiant ymatebol ar rybuddion am ymosodiadau posibl, ac mae hyn, gyda meddalwedd rhagweithiol, yn codi ymwybyddiaeth ymysg y staff. Ond bydd diweddaru SAPPOs, cwblhau'r hyfforddiant ar Ddiogeledd Gwybodaeth a gweithredu hyfforddiant ar ddiogeledd seiber/amddiffyn, sy'n addas i swyddi, yn annog diwylliant sy'n ymwybodol o ddiogeledd yn GTAGC ac yn lleihau'r risg o ymosodiad llwyddiannus, yn enwedig drwy dechnegau peirianneg cymdeithasol. Mae gwybodaeth am risg o droseddau seiber a rhybuddion am fygythiadau yn dod o nifer o ffynonellau, ond oherwydd nifer y rhybuddion a'r patsys gwendid, mae angen rhoi sylw pellach i'r maes hwn er mwyn adolygu'r hysbysiadau'n amserol a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol. Pan fydd patsys a diweddariadau meddalwedd yn cael eu darparu gan y gwerthwyr, mae'r nodiadau rhyddhau'n cael eu cyhoeddi ar y we, gan roi toreth o wybodaeth i unigolion sy'n dymuno manteisio ar unrhyw wendidau y bydd y diweddariadau'n delio â nhw, felly mae'n hanfodol fod y drafodaeth sy'n mynd ymlaen rhwng GTAGC a 3TC am ddefnyddio diweddariadau Windows yn | 0 | 8 | 9 | 1 | 18 | 18 | **Cyfyng-edig** |

| | Maes Archwilio | Canfyddiadau a Negeseuon Allweddol yr Archwiliad | Critigol | Pwys-ig | Cymedrol | Mân | Cyfan swm | Cytun-wyd gan y Rheolwyr | Barn Arch-wilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | brydlon ar rwydwaith Gorchymyn a Rheoli 'Guardian' yn cael ei chwblhau, a bod patsys neu ddiweddariadau meddalwedd sy'n cael eu cyflenwi gan y gwerthwr ac sy'n cynnwys diweddariadau critigol neu rai ar gyfer diogeledd yn cael eu defnyddio'n brydlon er mwyn lleihau'r risg o ymosodiad llwyddiannus fel hyn.<br><br>Mae Cynlluniau Parhad Busnes ar wahân ar gael ar gyfer TGCh a Gorchymyn a Rheoli, ac mae cydnerthedd yn cael ei brofi fel mater o drefn a thrwy ddigwyddiadau sy'n codi yn naturiol. Roedd diagramau rhwydweithiau yn amlwg, ac ymddengys eu bod yn gyfoes ac er bod taenlen ar gael ar gyfer y Gofrestr Asedau Gwybodaeth, nid yw wedi cael ei llenwi eto ac nid oes cynllun Dosbarthu Data ar gael. Hefyd, rhaid datrys problemau'n gysylltiedig â chofnodi'r asedau caledwedd a meddalwedd er mwyn sicrhau bod pob cofnod o asedau yn darparu darlun cynhwysfawr a chywir o'r asedau sydd ar gael, a hynny er mwyn gallu asesu pa mor gritigol ydynt i'r sefydliad a beth yw'r risg i'r asedau oherwydd bygythiadau a gwendidau hysbys, a defnyddio rheolaethau digonol.<br><br>Mae Rheoli Newid yn gallu diogelu a lleihau'r risg o wallau diangen a tharfu ar y gwasanaeth neu amser segur i wasanaethau TG, a bydd gweithredu proses Rheoli Newid ffurfiol yn darparu sicrwydd fod y newid ac unrhyw oblygiadau wedi cael eu hystyried yn briodol a bod y broses ar gyfer gweithredu, camu'n ôl a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rheoli'n briodol. Mae hyn yn dod yn fwyfwy pwysig oherwydd adnoddau cyfyngedig o ran staff yn yr adran TGCh.<br><br>Mae gliniaduron a chyfrifiaduron tabled yn cael eu ffurfweddu o ddelwedd safonol a defnyddir amgryptiad BitLocker. Mae Egress ar gael i ddiogelu unrhyw ddata busnes sensitif sy'n cael ei anfon dros e-bost. Mae defnyddwyr systemau yn cael eu rhwystro rhag gosod neu analluogi meddalwedd/pecynnau/gosodiadau diogeledd drwy bolisi grŵp a thrwy'r caniatadau leol a ddefnyddir ar eu cyfer, ac mae'r defnydd o ddyfeisiadau storio symudol yn cael ei reoli gan bolisi ac yn cael ei orfodi'n dechnegol. Nodwyd y cyfrifon defnyddwyr diofyn a gyflenwyr gan werthwyr, ond darparwyd sicrwydd bod y cyfrineiriau wedi cael eu newid. Mae mynediad breintiedig heb gyfyngiad, i gael mynediad llawn at yr holl seilwaith, yn cael ei ddarparu i nifer o unigolion drwy bolisi grŵp, ond prin yw'r gwaith archwilio a'r cofnodi ar y tasgau y mae defnyddiwr breintiedig yn eu cyflawni. Er mwyn cyfyngu ar effaith unrhyw gyfaddawd, boed yn fwriadol neu drwy gamgymeriad, drwy gyfrif defnyddiwr breintiedig, mae angen adolygu'r lefel hwn o fynediad, a'i | | | | | | | |

| | Maes Archwilio | Canfyddiadau a Negeseuon Allweddol yr Archwiliad | Critigol | Pwys-ig | Cymedrol | Mân | Cyfan swm | Cytun-wyd gan y Rheolwyr | Barn Arch-wilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ddarparu ar sail y lefel freintiedig isaf, sef wedi'i deilwra i'r swyddi. Bydd cwblhau'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen i symud rheolaeth dyfeisiadau symudol i AirWatch a'r SAPPO ategol, gellir lleihau'r risg fod data'n cael ei agor gan ddyfeisiadau sydd ar goll, wedi'u dwyn neu wedi'u rhoi ar gam. | | | | | | | |
| 2 | **Gorsafoedd y System RDS (Conwy a Sir Ddinbych)** | Mae'r adolygiad archwilio yn dangos bod nifer o feysydd yn systemau Gorsafoedd Tân RDS Conwy a Sir Ddinbych a'r systemau cysylltiedig i'w gweld yn gweithio'n dda, a bod rheolaethau allweddol yn bodoli. Cadarnhawyd bod y System electronig FIN8 yn gweithio'n effeithiol; mae FIN8au yn cofnodi'n gywir beth yw rhif y digwyddiad, beth yw amser hysbysu a gadael, presenoldeb, trigfannau, ymarferion ac ati, mae data taliadau'n cael ei drosglwyddo'n gywir i'r amserlenni talu ac mae diffoddwyr tân yn cael eu talu'n gywir am unrhyw ffioedd a lwfansau sy'n ddyledus iddynt. Fodd bynnag, canfuwyd bod gordaliad o £2,173 wedi cael ei wneud i'r diffoddwyr tân D (81925) ym mis Hydref o ganlyniad i wall mewnbynnu yn y Daenlen Data Sefydlog (Hawliad Medi 17). Cydnabyddir bod y gordaliad wedi cael ei ganfod cyn yr archwiliad, a bod yr arian wedi cael ei ad-dalu â siec gan y diffoddwr tân ym mis Hydref. Hefyd, gor-dalwyd £16.14 i'r diffoddwr tân D (81640) ym mis Hydref gan fod 3 diwrnod o wyliau wedi cael eu talu ar y gyfradd ddyddiol o £13.04 ac nid £7.64 o ganlyniad i wall mewnbynnu ar y Daenlen Data Sefydlog. Mae profion archwilio wedi canfod dau wall bach wrth i reolwyr gwylfa drosglwyddo data o'r Cofrestrau Presenoldeb i'r FIN 8 cysylltiedig, gan arwain at £10.67 o dan-daliad i ddiffoddwr tân.<br><br>Mae'r Cadetiaid Tân Cenedlaethol yn sefydliad addysgol i ieuenctid, sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc rhwng 13 ac 18 i gael cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, gyda changhennau yn Amlwch, Biwmares, Conwy, y Waun, Llanfairfechan, Prestatyn a Phwllheli. Yn ystod ymweliad â'r Gorsafoedd ac archwiliadau o gofrestrau presenoldeb (Medi 2017) gwelwyd bod un Hyfforddwr (81668) heb gael archwiliad DBS manylach. Dirprwy Bennaeth Diogelwch Cymunedol sy'n cadw rhestr o Hyfforddwyr Cadetiaid ac a oes archwiliadau DBS manylach wedi cael eu cwblhau. Canfuwyd bod 5 o hyfforddwyr (gan gynnwys 81668) heb gael archwiliad DBS manylach gan nad ydynt wedi dychwelyd y ffurflen gais a phrawf adnabod. Cadarnhawyd na fydd Hyfforddwyr Arweiniol yn cael gweithio fel Hyfforddwyr os na fyddant wedi cael Archwiliad DBS manylach erbyn 31/1/18, a bydd yr archwiliadau DBS o Hyfforddwyr Lleyg wedi'u cwblhau erbyn 31/3/18.<br><br>Cadarnhawyd bod Gorchymyn (SAPPO *Polisi Rhestrau ar Safleoedd*) ar gael i nodi'r gweithdrefnau a ddisgwylir ar gyfer diogel asedau'r Gwasanaeth; mae | 0 | 1 | 1 | 7 | 9 | 9 | **Boddhaol** |

| | Maes Archwilio | Canfyddiadau a Negeseuon Allweddol yr Archwiliad | Critigol | Pwys-ig | Cymedrol | Mân | Cyfan swm | Cytun-wyd gan y Rheolwr | Barn Arch-wilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gorsafoedd y system RDS yn defnyddio llyfrau rhestrau safleoedd (PIB) swyddogol ac mae'r gwiriadau blynyddol yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan y swyddog sy'n gyfrifol. Fodd bynnag, collwyd y PIB yng Ngorsaf RDS Conwy ac nid yw'r gwiriadau blynyddol a ragnodwyd wedi cael eu cynnal yn Llanfairfechan a Llanelwy ers 2014 nac ym Metws y Coed ers 2015. Hefyd, nid yw'r Rheolwr Ardal yn cydymffurfio â'r SAPPO ac yn cynnal archwiliadau blynyddol o'r PIB ar gyfer Gorsafoedd dan ei ofal.<br>Cadarnhawyd bod gwiriadau rhestrau cyfarpar peiriannau tân yn cael eu cynnal yng Ngorsafoedd Tân y System RDS yng Nghonwy a Sir Ddinbych o leiaf bob wythnos ar nosweithiau ymarfer, a hynny yn unol â'r SAPPO. Ar y cyfan, mae Rheolwyr Gwylfa yn cynnal y gwiriadau chwarterol ond nid yw gwiriadau'r Rheolwr Gwylfa wedi cael eu cynnal yn Llanfairfechan a Rhuthun ers 2016. Ac eithrio Gorsaf Prestatyn, nid yw archwiliadau gwirio chwe misol Rheolwr yr Ardal wedi cael eu cyflawni ers 2014 a 2015, ac nid yw'r Adran Gweithrediadau yn cynnal yr archwiliadau sicrhau ansawdd blynyddol.<br>Cadarnhawyd bod pob cerbyd yn cadw llyfr log, sy'n cofnodi darlleniadau'r mesurydd milltiroedd, llenwi'r cerbyd â thanwydd, llofnod y gyrrwr ar ôl pob taith a llofnod y swyddog goruchwyliol. Yn unol â'r SAPPO, mae tudalen uchaf y taflenni log yn cael ei chyflwyno i Adran y Fflyd ar ddiwedd pob mis.<br>O ran Cronfeydd Lles, cadarnhawyd bod yr Adran Gyllid yn cadw cofnod canolog o'r Gorsafoedd sy'n gweithredu cronfeydd lles, a bob blwyddyn mae'r trysoryddion yn cyflwyno tystysgrifau archwilio. Ar ddyddiad yr archwiliad, roedd 4 Gorsaf (1 Criw Dydd, 1 Orsaf Amser Cyflawn a 2 Orsaf RDS (Porthaethwy a Phwllheli) heb gyflwyno eu tystysgrif archwilio blynyddol. | | | | | | | |
| 3 | **Polisi a Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban** | Cafodd y Polisi Datgeliadau Er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban) a Llwgrwobrwyo (SAPPO Adran 7 Gorchymyn 20) ei gyhoeddi ym mis Hydref 2014. Mae'r Polisi'n cynnwys y prif feini prawf y dylid eu cynnwys mewn polisi chwythu'r chwiban, er y dylai hefyd gynnwys sut y gall gweithwyr fynegi pryderon y tu allan i'r Gwasanaeth os ydynt yn anfodlon â'r ymateb, e.e. i archwilydd allanol, rheoleiddiwr neu ombwdsmon. Hefyd, er bod y Polisi'n dweud mai cyfrifoldeb yr Adran Adnoddau Dynol yw cynnwys y Gorchymyn, ei gyhoeddi ac unrhyw newidiadau pellach iddo, nid yw'n nodi'n glir pwy yw Rheolwr y Polisi Chwythu'r Chwiban i fod yn gyfrifol o ddydd i ddydd am y trefniadau chwythu'r chwiban ac am effeithiolrwydd y Polisi yn gyffredinol.<br>Fe wnaeth Cydlynydd Gwasanaethau Cefnogol anfon neges e-bost at yr *Holl Staff* | **0** | **0** | **0** | **12** | **12** | **12** | **Boddhaol** |

| | Maes Archwilio | Canfyddiadau a Negeseuon Allweddol yr Archwiliad | Critigol | Pwys-ig | Cymedrol | Mân | Cyfan swm | Cytun-wyd gan y Rheolw yr | Barn Arch-wilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *Lifrai; Staff Di-lifai; COAT* yn Hydref 2014, yn dweud bod y SAPPO ar gael yn y Ffolderi Cyhoeddus ac ar Fewnrwyd GTAGC. Ond ystyrir y dylai'r Polisi a'r canllawiau fod ar gael ar wefan y Gwasanaeth hefyd er mwyn i weithwyr gael gafael arnynt yn allanol ac er mwyn i gontractwyr a chyflenwyr gael gafael ar y Polisi.<br><br>Cafodd hyfforddiant ar y Ddeddf Chwythu'r Chwiban a Llwgrwobrwyo ei ddarparu i'r Gwasanaeth gan arbenigwyr ar gyfraith cyflogaeth (VWV). Roedd Rheolwyr Maes, rheolwyr grŵp a phenaethiaid adrannau wedi cwblhau'r hyfforddiant erbyn diwedd Ionawr 2015 a threfnwyd i gynifer o reolwyr llinell â phosibl i gael yr hyfforddiant erbyn diwedd Mawrth 2015. Er bod y PSTC wedi awgrymu ar y pryd y gallai'r hyfforddiant gael ei ddarparu i reolwyr nad oedd yn gallu dod i'r hyfforddiant a rheolwyr newydd drwy fodiwl e-ddysgu *Learnpro* (LMS), ni ddigwyddodd hyn.<br><br>Dylai gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn y Gwasanaeth annog unigolion i ddatgelu pryderon, ac mae'n hollbwysig fod ymwybyddiaeth o'r Polisi yn cael ei gynnwys yn y *Briff Wythnosol* neu yn y cylchlythyr chwarterol *Y Fflam*. Canfuwyd mai gweithwyr newydd sy'n fwyaf tebygol o godi pryderon, a dylai darllen a deall y Polisi Chwythu'r Chwiban gael ei gynnwys yn Rhaglen Gynefino'r Staff. Hefyd, efallai y bydd gweithiwr yn teimlo o bryd i'w gilydd nad yw'n gallu neu nad yw'n fodlon trafod pryderon â'r rheolwyr uniongyrchol a dylid cynnig sianelau eraill yn y Gwasanaeth, megis llinell ffôn uniongyrchol i beiriant ateb neu gyfeiriad e-bost cyfrinachol.<br><br>Nododd y Rheolwr AD fod yr unig ddatgeliadau chwythu'r chwiban, ers dechrau'r Polisi yn 2014, wedi cael eu codi ar ôl terfynu cyflogaeth, a'u bod wedi cael eu trin drwy bolisïau eraill neu hawliadau Tribiwnlys Cyflogaeth; o ganlyniad ni fu modd profi cydymffurfiaeth y Gwasanaeth â'r Polisi ac arferion gorau. Fodd bynnag, cafodd nifer o argymhellion eu gwneud i'w hystyried, er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn bodoli. Dylai'r Gwasanaeth gadw cofnod canolog o ddatgeliadau chwythu'r chwiban a rhoi cyfeirnod unigryw i'r datgeliadau. Yn unol â'r Polisi, dylid ymateb i'r datgeliadau cyn pen 10 niwrnod, gan gydnabod bod y pryder wedi dod i law, sut mae'n bwriadu delio â'r mater, amcangyfrif o'r amser y bydd yn ei gymryd i ddarparu ymateb terfynol, dweud a fydd rhagor o ymchwiliadau'n cael eu cynnal, ac os na fydd dim, y rhesymau pam ddim. Hefyd, dylid ysgrifennu at bawb sy'n Chwythu'r Chwiban cyn pen 10 diwrnod ar ôl cwblhau'r ymchwiliad yn cadarnhau beth | | | | | | | |

| | Maes Archwilio | Canfyddiadau a Negeseuon Allweddol yr Archwiliad | Critigol | Pwys-ig | Cymedrol | Mân | Cyfan swm | Cytun-wyd gan y Rheolw yr | Barn Arch-wilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | yw canlyniad yr ymchwiliad ac yn dweud pa gamau pellach fydd yn digwydd, ac os na fydd dim, y rhesymau pam ddim.<br>Mae angen i'r uwch reolwyr a'r Aelodau ystyried pa mor effeithiol yw'r polisïau a'r gweithdrefnau chwythu'r chwiban fel rhan o'u goruchwyliaeth o'r system rheolaeth fewnol. Dylid cyflwyno adroddiadau bob blwyddyn i'r Grŵp Gweithredol a'r ATA, gan nodi nifer y datgeliadau, beth oedd canlyniadau ymchwiliadau, yr adborth a roddwyd ac unrhyw wendidau allweddol o ran rheolaeth. | | | | | | | |
| 4 | **Y Fenter Dwyll Genedlaethol 2016/17** | Mae'r Fenter Dwyll Genedlaethol yn ymarferiad cynhwysfawr a thrylwyr i 'baru data', Mae'n cael ei threfnu gan Swyddfa'r Cabinet mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r ymchwiliadau. Mae hyn yn darparu lefel Uchel o sicrwydd fod y systemau rheolaeth fewnol yn gweithio'n dda a bod cyn lleied â phosibl o dwyll ac anghysonderau. Mae'r ymarferiad yn cynorthwyo hefyd i gryfhau'r trefniadau gwrth-dwyll a llygredd, ac i sefydlu diwylliant gwrth-dwyll. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **Uchel** |
| | | | | | | | | **Uchel** | **1** |
| | | | | | | | | **Boddhaol** | **2** |
| | | | | | | | | **Cyfyngedig** | **1** |
| | | | | | | | | **Dim Sicrwydd** | **0** |

**ATODIAD B**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Amserlen Archwiliadau Dilynol 2017/18**

| | Disgrifiad | Archwilydd | Dyddiad yr Archwiliad | Dyddiad Arfaethedig yr Archwiliad Dilynol | Dyddiad yr Archwiliad Dilynol | Nifer yr Argym-hellion | Argym-hellion yn Weddill | Barn Archwilio Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ***GTAGC – Rheoli Presenoldeb** | KVW | Rhagfyr-16 | Mehefin-17 | Hydref-17 | 4 | 2 | **Sicrwydd Boddhaol** |

***Nodyn 1**
Cafodd 4 o argymhellion eu gwneud yn yr adroddiad archwilio a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2016. Rhoddwyd 2 argymhelliad ar waith ac ystyrir bod 2 o'r argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith yn rhannol. Cadarnhawyd bod y *Polisi* a'r *Weithdrefn Rheoli Presenoldeb* wedi cael eu cymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol ym mis Medi 2017. Hefyd, mae profion archwilio wedi cadarnhau bod defnyddio trothwyon i reoli presenoldeb yn digwydd yn fwy cyson yn unol â'r Polisi, ac ym mhob achos roedd cyfarfod adolygu wedi cael ei gynnal ac roedd y rhybuddion perthnasol wedi cael eu rhoi ar y trothwy penodol.
O ran yr argymhellion yr ystyrid eu bod wedi eu rhoi ar waith yn rhannol, nodwyd y canlynol:

Roedd Argymhelliad 2 yn ei gwneud yn ofynnol i uwch reolwyr, ar ddechrau pob blwyddyn, osod amcangyfrifon / targedau absenoldeb salwch ar gyfer pob grŵp galwedigaethol er mwyn gallu mesur a gwella perfformiad. Bydd y targed perfformiad a'r data gwirioneddol yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Gweithredol a'r Aelodau. Fe wnaeth y Rheolwr AD lunio papur ymgynghorol ar gyfer y DBST yn nodi rhai opsiynau o ran fformiwlâu cyfraddau absenoldeb a ddefnyddir i greu targed. Fe wnaeth y DBST gymeradwyo'r meincnod (1.4) Llywodraeth Leol gan CIPD, sef **10.5** o ddiwrnodau cymedrig a gollir ar gyfartaledd fesul gweithiwr y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn yn eithrio data salwch y System RDS oherwydd ystyrid y gellid mesur yr absenoldeb hwnnw yn fwy cywir gan y Gwasanaeth drwy ddefnyddio ei fformiwla ei hun; ar adeg yr archwiliad dilynol, nid oedd targed absenoldebau salwch wedi cael ei osod ar gyfer y system RDS. Mae'n amlwg hefyd nad oes targed wedi cael ei osod ar gyfer pob grŵp galwedigaethol; ystyrir bod cymaint o amrywiad ers hynny yn nifer y diwrnodau/shifftiau sy'n cael eu colli fesul grŵp galwedigaethol, e.e. 2016/17 Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn – 9.76 diwrnod a Staff Di-lifrai 19.93 diwrnod, fel nad yw defnyddio meincnod CIPD fel targed yn ffordd effeithiol o fedru mesur a gwella perfformiad. Ystyrir y dylid gosod targedau absenoldeb salwch ar gyfer pob grŵp galwedigaethol ar ddechrau'r flwyddyn ac adrodd y data gwirioneddol i'r Grŵp Gweithredol i fedru mesur a gwella perfformiad.

Roedd Argymhelliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Adnoddau Dynol ddarparu rhagor o hyfforddiant ac arweiniad i Reolwyr Gwylfeydd Gorsafoedd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion y *Polisi Rheoli Presenoldeb* diwygiedig, yn arbennig y gofyniad i gyflwyno gwaith papur fel tystysgrifau meddygol a ffurflenni hunan-ardystio i AD cyn pen 10 diwrnod calendr. Mae'r archwiliad dilynol wedi cadarnhau bod y Polisi Rheoli Presenoldeb wedi cael ei gymeradwyo a'i fod ar gael i'r staff ar y Fewnrwyd; mae dogfen gyfarwyddyd pellach, o'r enw *Canllawiau Polisi Rheoli Presenoldeb 2017* yn y cyfnod drafft, ac mae'n bwysig ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl er mwyn darparu arweiniad ychwanegol. Mae rhaglen o ymweliadau â Gorsafoedd yn mynd yn ei blaen i alluogi'r Uwch Ymgynghorwyr AD i ddarparu hyfforddiant ychwanegol i'r Rheolwyr Gwylfa ar gydymffurfio â'r Polisi. Fodd bynnag, mae profion archwilio a gynhaliwyd ar 5 o gyfnodau absenoldeb diffoddwyr tân y system RDS wedi canfod mai dim ond un dystysgrif feddygol ac un ffurflen hunan-ardystiad a ddaeth i'r adran AD cyn pen 10 diwrnod; mae dwy o'r tystysgrifau hunan-ardystio yn dal heb gyrraedd er bod y diffoddwyr tân wedi dychwelyd i'r gwaith ddechrau mis Awst a bod nodiadau atgoffa wedi'u hanfon droeon. Mae hyn yn dangos bod problemau sylweddol o hyd, er ymdrechion yr adran AD, o ran Rheolwyr Gwylfa yn peidio â chyflwyno gwaith papur absenoldebau salwch o fewn amserlenni a gymeradwywyd.

Roedd yr adroddiad archwilio blaenorol yn darparu lefel Foddhaol o sicrwydd o ran gweithredu rheolaethau allweddol a rheoli risg. Mae'r adolygiad archwilio a'r gwerthusiad o'r amgylchedd rheoli mewnol yn seiliedig ar nifer o argymhellion a wnaed, ynghyd â'u sgôr risg. Ystyrir bod y farn mewn perthynas â Rheoli Presenoldeb yn GTAGC yn **parhau i ddarparu lefel Foddhaol o sicrwydd.**

**ATODIAD C**

## Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
## Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol 2017/18

| | Adran / Gwasanaeth | Diwrnodau a gynllun-iwyd 2017/18 | Nifer wirioneddol y Diwrnodau 2017/18 |
|---|---|---|---|
| **1** | Y Prif Systemau Ariannol – **Credydwyr** | **11** | **0** |
| **2** | Diogelwch Seiber (Rhan 1) – Cwblhau'r archwiliad o Ddiogelwch Seiber (Rhan 2) – Rhaglen yr Archwiliad a Pharatoi | **12** | **7** |
| **3** | Gorsafoedd y System RDS (Conwy a Sir Ddinbych) | **11** | **11** |
| **4** | Polisi a Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban | **0** | **9** |
| **5** | Y Fenter Dwyll Genedlaethol (NFI) | **7** | **8** |
| **6** | Ymchwilio i'r Defnydd o Gerbydau'r Gwasanaeth – Teithiau preifat, rheolau Cyllid a Thollau EM a buddion trethadwy mewn nwyddau. | **0** | **6** |
| **7** | **Archwiliadau dilynol**:<br>• Rheoli Presenoldeb | **7** | **4** |
| **8** | Cynllunio ac Adrodd yn ATAGC (gan gynnwys Adroddiad Blynyddol a Chynllun Strategol) | **5** | **5** |
| **9** | Cronfa wrth Gefn | **2** | **0** |
| | **CYFANSWM Y DIWRNODAU** | **55** | **50** |
| | **Diwrnodau a Ddyrannwyd 2017/18** | | **55** |
| | **Diwrnodau Gwirioneddol 2017/18** | | **50** |
| | **Cyfanswm y Diwrnodau a Gariwyd Drosodd i 2018/19** | | **5** |

**ATODIAD D**

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
# Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Drafft 2018/19

| Cyf. Asesiad Anghenion | Adolygiad Archwilio | Sylwadau | Dydd-iau | Adeg Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|
| **Maes Archwilio – Risgiau Ariannol a Thwyll** | | | | |
| **28** | Y Prif Systemau Ariannol – **Credydwyr** | Archebu a thalu am waith, nwyddau a gwasanaethau drwy System P2P Conwy i sicrhau lefelau priodol o reolaeth fewnol System. | **10** | **Rhagfyr 2018** |
| **25 a 28** | Gorsafoedd y System RDS (Ynys Môn a Gwynedd) | Talu cyflogau a lwfansau i ddiffoddwyr tân ar y system RDS, diogelu asedau a chynnal a chadw cofnodion eiddo gorsafoedd a pheiriannau, cofnodi pob taith / tanwydd mewn llyfrau log cerbydau, ac archwiliad blynyddol o Gronfeydd Lles. | **10** | **Medi 2018** |
| **23 a 28** | Dyledwyr | Adolygu polisi a gweithdrefnau'r Gwasanaeth ar gyfer codi anfonebau dyledwyr, diwygio anfonebau, taliadau, adfer dyledion, dileu, a monitro ac adrodd. | **9** | **Chwefror 2019** |
| **Maes Archwiliad – Rheoli Gwybodaeth, a Thechnoleg** | | | | |
| **32** | Diogelwch Seiber (Rhan 2) | Amcan yr adolygiad yw darparu asesiad annibynnol i'r rheolwyr ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r gwaith atal a chanfod seiber-droseddau, a phrosesau, polisïau, gweithdrefnau a gweithgareddau llywodraethu ar gyfer rheoli digwyddiadau yn y maes. | **12** | **Awst 2018** |
| **Gwaith Archwilio Arall** | | | | |
| **-** | Cynllunio Archwiliadau, Adrodd Blynyddol a Rheoli | Darpariaeth ar gyfer yr amser sydd ei angen i'r elfen reoli o'r contract. | **5** | **Yn mynd ymlaen** |
| **-** | Archwiliad dilynol ar yr Argymhellion Blaenorol | Mynd ar ôl argymhellion a wnaed yn 2017/18 –<br>• Diogelwch Seiber (Rhan 1)<br>• Polisi a Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban | **7** | **Yn mynd ymlaen** |
| **-** | Cronfeydd wrth gefn | Ar gyfer gwaith na chynlluniwyd ac a ganfuwyd yn ystod y flwyddyn, a chyswllt/cyngor fel y bo'r angen. | **2** | |
| **Cyfanswm y Diwrnodau Angenrheidiol ar gyfer Gwaith Archwilio** | | | **55** | |
| **Cyfanswm y Diwrnodau a Ddyrannwyd 2018/19**<br>**Cyfanswm y Diwrnodau a gariwyd drosodd o 2017/18**<br>**Cyfanswm y Diwrnodau sydd ar gael 2018/19** | | | **50**<br>**5**<br>**55** | |